

## M Asghar: Ymweliad deuddydd â (Lahore) Pacistan

### Diben yr Ymweliad:

*Ar ôl bod yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Bangladesh, teithiais i Lahore, Pacistan i ddechrau ar ymgyrch i hyrwyddo sgiliau a gwasanaethau Cymraeg.*

### DIWRNOD 1

#### 9 Tachwedd:

##### *Diben y cyfarfod*

Ar fy niwrnod cyntaf yn Lahore, trefnwyd i mi gwrdd â Mr Sheikh, Ysgrifennydd Addysg a Sgiliau Llywodraeth Punjab. Yn ystod ein cyfarfod, buom yn trafod materion hyfforddi a'r angen i ddatblygu sgiliau, yn enwedig ymysg merched, pobl hŷn a phobl anabl.

##### *Y materion a drafodwyd:*

Soniodd am y cyfrifoldebau domestig a'r rhwystrau diwylliannol a oedd yn atal llawer o ferched Pacistan rhag cael addysg, ond dywedodd fod llawer ohonynt yn dysgu sgiliau fel pwytho a gwaith llaw gyda chymorth / cydweithrediad cyrff anllywodraethol sy'n gweithio'n benodol â merched. Roedd hyn yn golygu eu bod yn gallu gweithio gartref ac ennill bywoliaeth i ddarparu ar gyfer eu teuluoedd ac roedd cynlluniau o'r fath i'w gweld yn llwyddo, er ei bod yn dasg anodd argyhoeddi aelodau mwy traddodiadol o'r teulu. Roedd rhai, gyda chymorth cyrff anllywodraethol, wedi sefydlu eu busnesau eu hunain hyd yn oed, ac roeddent yn cyflogi pobl o'u cymunedau eu hunain ac yn eu helpu i feithrin sgiliau a doniau o fewn y meysydd roeddent wedi dewis gweithio ynddynt. Ar ddiwedd y cyfarfod addawodd Mr Sheikh ddod â dirprwyaeth i Gymru yn y dyfodol agos.

##### *Diben y cyfarfod*

Yna, fe'm cyflwynwyd i Mr Aftab Hussain, un o swyddogion (UCPO) Sefydliad Iechyd y Byd.

##### *Y materion a drafodwyd:*

Dywedodd mai'r broblem fwyaf difrifol ym Mhacistan ar hyn o bryd yw clefyd dengue a'r roedd rheoli'r clefyd hwn yn peri pryder mawr. Soniodd am bwysigrwydd imiwneiddio a'i bod yn anodd addysgu'r boblogaeth a lledu gwybodaeth. Soniais innau am rai o ymgyrchoedd llwyddiannus y Cynulliad fel brechiadau ar gyfer y ffliw, ymgyrch canser y fron a strôc etc. Dywedais y dylent annog gwleidyddion, enwogion a sêr y wlad i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd a'u cefnogi gan y byddai hynny'n gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn allweddol hefyd oherwydd, yn fy marn i, ym Mhacistan, nid yw cyhoeddi taflenni a'u gosod mewn meddygfeydd yn ddigon ynddo'i hun i sicrhau bod pobl yn dod i wybod am y broblem. Soniais hefyd am y cynnyrch o Gymru yr oeddwn yn bwriadu ei drafod â Phrif Weinidog y Punjab - byddai'n helpu i buro dŵr a dileu'r clefyd gobeithio.

## **Diwrnod 2:**

### **16 Tachwedd 2017**

#### ***Diben y cyfarfod:***

Trefnwyd i mi gwrdd â Mr Faisal, Cadeirydd Bwrdd Croeso Punjab, yn ystod ail ddiwrnod fy ymweliad, ac es ar daith hanesyddol a diwylliannol gydag ef o amgylch Lahore. Yna, buom yn trafod yr angen i wella cyfleoedd twristiaeth rhwng Pacistan a Chymru er mwyn gwella'r cysylltiadau rhyngom.



#### ***Y materion a drafodwyd:***

Gan nad oedd Pacistan yn cael ei gynrychioli'n dda iawn yn y cyfryngau rhyngwladol, meddai, nid oedd y wlad yn cael gymaint o sylw â gwledydd fel India sy'n gallu ymfalchïo yn sêr Bollywood a lleoliadau diwylliannol fel y Taj Mahal a'r Deml Aur, Mosg Baadshai, Gerddi Shalimar a Minar-E-Pakistan, i enwi dim ond rhai.

Buom hefyd yn trafod materion diogelwch sy'n wynebu'r rhai sy'n ymweld â Phacistan. Gan fod y wlad yn rhannu ffin ag Affganistan mae nifer yn credu nad yw'n ddiogel ac maent yn amharod i ymweld â hi. At hyn, roedd haerïad nad yw'r broses fisa ar gyfer Pacistan yn broffesiynol iawn ac roedd angen sefydlu system fwy hwylus na'r system bresennol. Er enghraifft, mae gan India gangen o'r Uchel Gomisiwn yng Nghymru, ond byddai'n fuddiol cael Swyddfa ranbarthol yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'r system bresennol yn Llundain yn hynod o anhrefnus ac mae angen ei hailasesu. Mae hyn yn destun pryder i lawer o etholwyr ac i lawer o bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Mhacistan.

***NODYN\*\**** Roeddwn i fod i gwrdd â Phrif Weinidog Punjab, Shabaz Sharif, ar ôl y cyfarfod hwn. Fodd bynnag, oherwydd gŵyl grefyddol a oedd yn cael ei chynnal dros y penwythnos, nid oedd modd cysylltu â'r swyddfa dros y ffôn symudol. Ofer fu'r ymdrechion i gysylltu drwy ddefnyddio ffonau tir y gwesty ac ni lwyddwyd i drefnu lleoliad preifat/amser arall inni gwrdd. Roeddwn i wedi bwriadu siarad â Mr Sharif am gynnyrch o Gymru a welais yn cael ei arddangos yn y Sioe Frenhinol. Mae'n defnyddio techneg newydd ac arloesol i buro dŵr i'w yfed. Ond, yn anffodus, ni chynhaliwyd y cyfarfod hwn a bydd fy Swyddfa'n awr ceisio trefnu i Mr Sharif ymweld â Chymru, neu i mi gwrdd ag ef yn y DU i drafod hyn gan obeithio sicrhau bod Cymru a Phacistan yn gweithio gyda'i gilydd i greu Cymanwlad well.

**Mohammad Asghar AC 5 Rhagfyr 2017**